

Alun a Dirgelwch y Gerdd Hela *Iolo Wyn Williams*


Alun (John Blackwell) 1797-1840, heb os, yw bardd enwocaf yr Wyddgrug. Mab ydoedd i Peter a Mary Blackwell, ef yn golier a hithau yn ferch o Langwm. Teulu Cymraeg, mwy diwylliedig na'r cyffredin oeddent, yn addoli gyda'r Methodistiaid, ac weithiau yn yr Eglwys. Yr ysgol Sul oedd yr unig addysg gynnar a dderbyniodd John eu mab, ond yno fe ddysgodd ddarllen a llyncodd wybodaeth eang o'r Beibl. Yn 11 oed prentisiwyd ef gyda'r crydd lleol, William Kirkham, gŵr oedd yn ymddiddori mewn barddoniaeth.

Rhoi ei fryd ar fod yn offeiriad

Dan anogaeth ei feistr dechreuodd John farddoni, yn y mesurau caeth a rhydd. Enillodd dair cadair yn 1823, yn yr Wyddgrug, Rhuthun a Chaerfyrddin, gydag awdlau sydd yn parhau yn ddigon ddarllenadwy, a'u cynganeddion yn garlamus. Rhoddodd ei fryd ar fod yn offeiriad eglwysig, ac yn 1824 rhoddodd boneddigion ac offeiriaid lleol nawdd iddo fynd i ysgol Thomas Richards, Aberriw (sir Drefaldwyn) i'w baratoi ar gyfer mynd ymlaen i brifysgol Rhydychen, lle y graddiodd yn 1828. Yr oedd Thomas Richards, Aberriw (a Llangynyw ar ôl hynny) a'i frodyr Richard a Dewi yn drefnwyr eisteddfodau heb eu hail, a Mair eu chwaer yn croesawu beirdd ac yn casglu eu gweithiau. Yn yr awyrgylch hwn blodeuodd Alun, yn enwedig fel bardd telynegol. Gŵr arall a fu'n ddylanwad mawr arno oedd Ifor Ceri (John Jenkins 1770-1829), rheithor Ceri yn sir Drefaldwyn. Mwy amdano ef yn y man.

Marw yn ddyn ifanc

Ei swydd gyntaf yn yr eglwys oedd fel ciwrad Treffynnon, ac yna, yn 1833, penodwyd ef yn rheithor Maenordeifi yn sir Benfro, lle y treuliodd weddill ei oes fer. Credir ei fod wedi gorweithio fel golygydd **Y Cylchgrawn** (cylchgrawn er lledu gwybodaeth fuddiol). Priododd Matilda Dear o'r Pistyll, Treffynnon, yn 1839 ond bu farw ymhen blwyddyn. Cyhoeddwyd ei waith gan



John Blackwell (Alun) 1797-1840.

ffrindiau yn 1851 dan y teitl **Ceinion Alun** – cyfrol solet mewn rhwymiad da sydd yn werth ei chasglu.

Un o gerddi enwocaf Alun ydyw'r Gerdd Hela, yn disgrifio diwrnod o hela ym Mlaenau Morgannwg, ar drywydd 'Cadno cyfrwys Craig-y-Byllfa' (neu'r Bwllfa mewn rhai argraffiadau). Mae'n gerdd â chryn dipyn o ddirgelwch yn perthyn iddi. Yn y lle cyntaf, rhaid gofyn ai cerdd i helpa ddychmygol ydyw, ynteu cofnod o helpa. Ar dir ffeithiol mae'r gerdd yn agos at ei lle. Yr oedd cŵn hela'r Gelli yn enwog. Cŵn oeddent o hen frid Ffrengig a roddwyd yn anrheg i Abaty Margam gan abaty arall yn yr Ardenes yn Ffrainc. Wedi diddymu'r mynachlogydd daeth ystad Margam i feddiant y teulu Mansel o Fro Gŵyr. Cafodd y cŵn eu magu a'u bridio nes dod yn gŵn Cymreig ond yn fwy na'r cŵn cyffredin. Tua 1800 gwerthwyd y cŵn i Thomas Jenkin, y Gelli, fferm gerllaw Cymer Afan (i'r gogledd o Bontrhydyfen a Phort Talbot), sydd yno hyd heddiw. Tua 1920 aeth y cŵn i feddiant y brodyr Llewellyn, perchnogion pyllau glo yng nghyffiniau Aberdâr. Yn fferm Nantmelyn, Cwmdâr yr oedd eu cenel ac fel Cŵn y Bwllfa yr adwaenid hwy yn y cyfnod hwnnw.

Priododd Thomas Jenkin ag Elizabeth Jenkins tua 1795. Merch Blaen Corrwg oedd hi, fferm arall gerllaw Glynorrwg, heb fod ymhell o Gymer Afan. Er mai muddyn ydyw bellach roedd Blaen Corrwg yn fferm a fagodd deuluoedd mawr yn ei dydd.

Nodir llawer o leoedd daearyddol yn y gerdd. Llwyddais i ddarganfod y cyfan ohonynt, bron, ar fapiau modern, a nodais gyfeirnodau grid ar gyfer y sawl a hoffai ddilyn hynt y daith ar fap. Cofiw'n mai gwlad amaethyddol, Gymreig, prin ei phoblogaeth oedd Blaenau

Morgannwg yn nyddiau Alun, cyn i David Davies a'i debyg suddo pyllau glo dwfn y Rhondda. Oherwydd hynny gallai'r cadno a'r helpa groesi afonydd Afan, Corrwg, Nedd, Rhondda Fawr a Rhondda Fach yn ddirwystr ar drywydd 'Cadno Cyfrwys Craig y Byllfa'.

Ond lle yn hollol y mae Craig-y-Byllfa? Dyma'r dirgelwch cyntaf. Mae Bwllfa yn enw cyffredin ar y mapiau. Tebyg mai hen byllau bychain lle bu cloddio glo o'r wyneb, neu byllau mawr ar dir uchel ydyw llawer ohonynt. Uwchlaw'r Rhondda Fawr, heb fod ymhell o Ystrad Rhondda, y Gelli a Thonpentre gwelir Tarren y Bwllfa, Mynydd Bwllfa a Bwllfa Farm. Ond, yn agos at Gwmdâr, tu hwnt i'r Rhondda Fach, gwelir Mynydd Bwllfa a Tharren y Bwllfa arall, a Foel Bwllfa a Chraig y Bwllfa yn ogystal. Yno, yn ddiweddarach yr oedd Gwaith Glo Bwllfa Dare, ond Parc Gwledig Cwm Dâr sydd yno heddiw. Gan fod Cwmaman a Chefn Gwyngul, y ddau le cyntaf i'r cadno redeg iddynt, yn bur agos, dyma'n siwr lle'r oedd y wâl.

Nodir rhediad yr helpa yn fanwl iawn, o'r Gwyngul i'r Garreg Lwyd (ym mhen uchaf cwm y Rhondda fawr) i Graig y Llyn (y man uchaf ym Morgannwg) ar hyd y grib i gyfeiriad y Rhigos nes taro ar Gwm Grefelych (Gwrelych heddiw) sy'n rhedeg i lawr i Gwm Nedd ger Pont Walbi, ac i lawr y cwm i Aberpergwm. Troi yn ôl wedyn i'r mynydd-dir am Graig y Llyn, y Garn Goch a'r Garreg Lwyd cyn 'ildio'i gynffon' fel y dywedid. O ddilyn yr yrfa hon o bwynt i bwynt, 'fel yr hêd y frân, rwy'n cyfri 25 milltir, ond ar droed neu ar gefn ceffyl byddai'n nes at 40 milltir ac nid oedd hynny'n anarferol. I'r helwyr a'r cŵn deithio o'r Gelli i Graig y Bwllfa ac yna yn ôl o'r mynydd i'r Gelli fin nos byddai angen ychwanegu ugain milltir arall.

Sut y gwyddai am yr helpa?

Trown yn awr at y dirgelwch mwyaf. Sut y gallodd Alun, na fu erioed, hyd y gwyddom, yn agos at Flaenau Morgannwg roi cyfri mor fanwl o helpa dros dir mor fynyddig? Hwyrach mai'r cliw ydyw'r is-bennawd i'r Gerdd Hela yn Ceinion Alun, i nodi mai yng Ngheri, Swydd Drefaldwyn y cyfansoddwyd hi. Gellir tybio mai rhywdro yn ystod cyfnod Aberriw/Rhydychen (1824-1828) y digwyddodd hyn. Mewn erthygl yn **Llên Cymru** dywed Gwenallt fod Ifor Ceri, yr offeiriad, oedd hefyd yn gasglwr alawon gwerin a llên gwerin o Forgannwg, yn gwahodd beirdd a chantorion i'w gartref yn gyson ac yn gosod tasgau iddynt, megis gosod alaw arbennig i'r beirdd ysgrifennu cerddi arni. Yn wir, awgrymodd Gwenallt mai efelychu cerdd gan Lewis Hopcin yr ail o Donyrefail (1703-1771) a wnaeth Alun, gyda phenillion wyth llinell wythsill, yn odli mewn cwpledau, ond fe welais nifer o gerddi hela eraill ar yr un mesur. Beth bynnag, roedd Lewis Hopcin yn ei fedd ymhell cyn i'r cŵn symud i'r Gelli ac nid yw defnyddio'r un mesur yn esbonio sut y cafodd Alun afael ar yr holl fanylion. Rhaid fod Ifor Ceri wedi casglu'r alaw a chofnod o hynt yr helpa – rhywbeth y byddai meist'r yr helpa yn sic'r o'i gofnodi wedi diwrnod mor gofiadwy. Tybed a oedd Ifor Ceri (John Jenkins) yn berthynas i

(Parhâd ar dudalen 7)



Yr Helfa ym Mlaenrhondda, oddeutu 1930